Trac 1: Coedwig sy'n llawn cylchoedd [60 eiliad]

Ers y 1990au, mae Coed y Brenin wedi dod yn gyrchfan i feicwyr mynydd o ledled y wlad a thu hwnt. Ond nid dyma'r unig gylchoedd a geir yn y goedwig.

Mae digonedd o fywyd gwyllt yn cydfodoli'n hapus gyda'r miloedd o ymwelwyr dynol sy'n mwynhau'r holl gilomedrau o lwybrau a geir yma. Ac wrth i ni ymlwybro tuag at Afon Eden byddwn yn darganfod *cylch bywyd*, ac arferion hynod rhai o drigolion mwy diddorol y goedwig, gan gynnwys pryfed sydd â chyfrinach ddrewllyd a physgod cregyn sy'n celu cyfoeth cudd.

Mae'r rhywogaethau hyn wedi gweld newidiadau dramatig dros y can mlynedd diwethaf, ac mae nifer ohonynt i'w gweld ar gerfluniau prydferth ar hyd y llwybr. A allwch chi adnabod pob un ohonynt?

Cyn i chi gychwyn ar drywydd arhosfa dau, a welsoch chi'r cyrn tarw mawr i'r dde i chi? Maen nhw'n nodi dechrau llwybr beicio mynydd Tarw ac mae iddynt arwyddocâd arbennig yn yr ardal hon. Unrhyw syniadau? Cawn yr ateb yn nes ymlaen.

Dilynwch y nodwyr llwybr melyn ac edrychwch am y safle MP3 nesaf ar y llwybr.

Trac 2: Morgrug Blewog y Coed Gogleddol [120 eiliad]

Wrth i chi gerdded, a welsoch chi dwmpathau coch-frown wrth fonion coed ger y llwybr? A ydych chi'n gwybod beth ydyn nhw a phwy sydd yn byw ynddynt? Nythod Morgrug Blewog y Coed Gogleddol yw'r rhain a bydd pob un o'r dinasoedd morgrug hyn yn gartref i i gannoedd o filoedd o drigolion sy'n gweithio gyda'i gilydd i adeiladu a chynnal eu cymuned. Pam yr enw Morgrug Blewog y Coed Gogleddol? Yn wahanol i'w cefndryd sy'n hoffi'r haul, sef Morgrug Cochion y Coed, canolbarth Cymru yw'r pwynt mwyaf deheuol ble gallwch ddod o hyd i'r pryfed hyn sy'n byw yn y cysgod. Pe byddech yn edrych yn fanwl iawn arnyn nhw byddech yn gweld fod ganddynt aeliau blewog iawn. Ond peidiwch â mynd yn rhy agos - mae'r pryfed eofn hyn yn chwistrellu asid fformig at unrhyw beth, ac unrhyw un, y maen nhw'n ei weld fel bygythiad. Mae'r asid hwn yn drewi, a hefyd mae'n gallu achosi pothellau ar y croen, a throi blodau clychau'r gog yn binc hyd yn oed! Prif bwrpas yr asid yw troi ysglyfaeth yn gawl, gan ei wneud yn fyrbryd llawer mwy dymunol i'r morgrug diflino hyn.

Mae'n debygol eich bod wedi sylwi bod eu nythod wedi'u gwneud o nodwyddau pinwydd, dail a brigau. A wyddoch chi fod y morgrug hyn yn aml yn adeiladu nythod dros fonion coed, oherwydd bod pren sy'n pydru'n

creu gwres sy'n helpu i ddeor morgrug ifanc? Mae'r nythod hyn yn weddol fach – mae rhai'n gallu bod dros fedr o uchder! Ond ni chaiff y dinasoedd hyn eu hadeiladu mewn diwrnod – mae rhai o'r nythod mwyaf yn y goedwig hon yn debygol o fod bron i gan mlwydd oed! Pwy fydd yn gallu adnabod y nyth fwyaf wrth i chi ymlwybro tuag at arhosfa tri a thu hwnt? Ond peidiwch ag ymyrryd â'r nythod gyda phrennau neu'ch traed oherwydd byddai hyn yn achosi llawer o ddifrod a byddai fel daeargryn neu fom yn ffrwydro mewn dinas pobl!

Dilynwch y llwybr eto i chwilio am safle tri.

Trac 3: Troelli darnau £1 [120 eiliad]

A ydych chi wedi sylwi ar yr holl fathau gwahanol o goed sydd yma? Mae rhai ohonynt yn frodorol, sy'n golygu eu bod wedi tyfu yma erioed. Mae'r rhain yn tueddu bod yn goed collddail, sy'n colli eu dail yn y gaeaf. Ond byddwch yn sylwi ar goed conifferaidd hefyd. Mae'r rhain yn cadw'u dail trwy gydol y flwyddyn, ar wahân i'r Llarwydden, sy'n eithriad i'r rheol – mae ei nodwyddau'n troi'n felyn cyn disgyn.

Mae cyfuniad o goed llydanddail ysgerbydol yn y gaeaf a rheoli gofalus yn golygu bod digon o olau'n cyrraedd llawr y goedwig am gyfnodau hir yn ystod y flwyddyn. Yn y gwanwyn mae carped moethus o flodau'n ychwanegu rhywfaint o liw i'r llawr.

Hefyd mae'r gymysgedd o rywogaethau coed yn golygu y gallwch ddisgwyl corws gan amrywiaeth o adar ar hyd y flwyddyn. Mae ymwelwyr haf yn cynnwys Telor y Coed, sef aderyn bach gwyrdd a melyn sydd â chân yn debyg iawn i sŵn darn arian yn troelli, gan droelli'n arafach ac arafach. Mae Tingochiaid i'w cael yno hefyd, yn nythu mewn waliau cerrig, a gellir eu hadnabod wrth eu cynffonau oren-goch llachar sy'n aml yn crynu. Yn y gaeaf gellir gweld heidiau mawr o bilaod gwyrddion yn hedfan drwy ganopi'r goedwig ble maen nhw'n bwyta'r hadau o foch coed y coed conwydd.

Os oes gennych lygaid craff, efallai y byddwch yn sylwi ar aderyn cân lleiaf y Deyrnas Unedig. Mae gan y Dryw Eurben streipen oren neu felyn nodedig ar hyd top ei ben sy'n ymestyn o'i big i'w gefn. Os na allwch ei weld, efallai y bydd ei gân zi-zi-zi dreiddgar ac ailadroddus, sy'n gorffen gyda chwafer, yn eich helpu chi i'w leoli.

Nid adar yn unig a welir yn yr awyr; mae bron i draean o rywogaethau ystlumod y DU i'w cael yn hela rhwng y coed hyn. Gyda'r nos, mae Corystlumod – sef ein hystlum lleiaf ei faint a mwyaf cyffredin - sy'n pwyso llai na darn punt, yn gallu bwyta tair mil o bryfed mân mewn un noson yn

unig! Mae'r Ystlum Hirglust yr un mor drawiadol. Mae ei glyw yn sensitif dros ben, a chredir ei fod yn gallu clywed buwch goch gota'n cerdded ar ddeilen, hyd yn oed!

Eto i gyd, nid oes cymaint o goed a'r rhywogaethau sy'n gysylltiedig â nhw wedi bod yma erioed, fel y byddwn yn darganfod yn arhosfa pedwar.

Trac 4: O ble daeth yr holl goed hyn? [120 eiliad]

A welsoch chi'r ysgubor garreg ar ochr dde'r fynedfa i Goed y Brenin o'r ffordd fawr wrth i chi gyrraedd heddiw? Beth am olion wal garreg i'r chwith o'r man ble rydych yn sefyll nawr? Mae'r strwythurau hyn a'r corlannau defaid – sef llociau carreg ar gyfer cadw da byw – a welir yn y maes parcio gorlif, yn awgrymu nad coedwig a fu yma erioed.

Mewn gwirionedd, lai na chan mlynedd yn ôl, byddech yn sefyll wrth ymyl cae, yn edrych allan dros olygfa gyda nifer gymharol fechan o goed, gyda defaid yn pori'r glaswellt o gwmpas. Adeiladwyd waliau fel y rhain o gerrig a gliriwyd oddi ar y tir gerllaw i gynyddu'r porfeydd.

Mewn ymdrech i ddatrys y prinder pren a gododd o ganlyniad i ymyrraeth i'r cyflenwad o dramor yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, gweithredodd y llywodraeth i sefydlu'r Comisiwn Coedwigaeth ym 1919 [mil naw un naw]. Roedd ei nod yn un syml: diogelu ac ehangu coedwigoedd Prydain, gan sicrhau hunanddigonedd o ran pren.

Prynwyd darnau mawr o dir ymylol, mewn ucheldir yn bennaf, a phlannwyd rhywogaethau anfrodorol sy'n tyfu'n gyflym, gan gynnwys nifer o'r rhywogaethau conifferaidd a welwch yma heddiw. Mae ein hinsawdd fwyn yn annog y coed hyn i dyfu'n gyflymach nag yn eu gwledydd brodorol, sef America a Sgandinafia, gan gyflenwi llawer o bren ar gyfer defnydd bras, megis ffensio neu gynhyrchu byrddau sglodion. Ond mae cylchoedd tyfiant y coed cyflym hyn yn rhy lydan ar gyfer eu defnyddio i adeiladu strwythurau. Er hynny, mae gobaith i'w gael. Yn arhosfa saith cewch weld sut y llwyddodd y Comisiwn Coedwigaeth i ddatrys hyn ac adeiladu'r ganolfan ymwelwyr drawiadol.

Cyn symud ymlaen, a welsoch chi unrhyw hyddod brith yn y goedwig hyd yn hyn? Mae'r rhai sydd yma yn rhai anarferol iawn. Yn hytrach na bod â chotiau coch nodweddiadol a smotiau gwyn, cafodd yr hyddod hyn, a ddihangodd o Ystâd Nannau gerllaw, eu magu'n ddetholus ac maen nhw'n crwydro'r goedwig mewn cotiau tywyll nodedig.

Nawr mae'n bryd symud ymlaen i arhosfa pump ble byddwn yn clywed am rywogaeth sy'n gwneud i ennill y loteri ymddangos yn hawdd.

Trac 5: Perlau a the jasmin [115 eiliad]

A wyddoch chi beth oedd un o'r rhesymau pam yr ymosododd y Rhufeiniaid ar Brydain dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl? Mae'r ateb i'w gael yn yr afon hon, ac ar un adeg, mewn cannoedd o afonydd ledled Ynysoedd Prydain.

Heb fod ymhell o'r llecyn hwn mae misglod perlog, sy'n mynd yn fwyfwy prin, yn magu. Maen nhw'n gallu byw am dros gant o flynyddoedd! Mae cylch bywyd y fisglen berlog yn ddiddorol dros ben. Er y bydd misglen fenywaidd aeddfed yn gollwng miliynau o wyau i'r dŵr, dim ond un o bob deng mil yn unig fydd yn llwyddo i lynu wrth dagellau eog a brithyll ifanc, sy'n frith o ocsigen. Yno, byddan nhw'n tyfu am bron i flwyddyn cyn disgyn i'r hyn y byddan nhw'n gobeithio sy'n dywod neu raean glân.

Ar ôl gorchfygu'r rhwystr hon, dim ond pump y cant fydd yn goroesi'r deng mlynedd nesaf a chyrraedd aeddfedrwydd - ac o'r rhain, dim ond un mewn pob cant fydd yn cynhyrchu perlau gwerthfawr! Whiw! Mae'r risg uchel o farwolaeth yn y blynyddoedd cynnar yn golygu ei bod yn hanfodol bwysig nad oes unrhyw ymyrraeth yn digwydd. Yn anffodus, mae llygredd mewn afonydd, carthu afonydd a hel perlau gwerthfawr ar gyfer gemwaith, wedi dinistrio llawer o'u cynefinoedd, ac fel y clywsom, mae angen rhywfaint o amser a lwc ar y cregynbysgod hyn i lwyddo.

Mae pethau ar i fyny yn achos rhai o'r rhywogaethau sydd yma. Mae baw dyfrgi, sy'n ludiog a du ac sy'n arogli fel cyfuniad o bast bysgod a the jasmin, yn dangos presenoldeb dyfrgwn ar lannau'r afon hyn. Eto i gyd, er bod eu niferoedd ar gynnydd, mae'n cymryd rhywfaint o lwc i'w gweld, oherwydd bod y mamaliaid hyn yn gyfrinachgar iawn. Rydych yn annhebygol o weld gwartheg ar hyd glan yr afon hon y dyddiau hyn, ond byddwch yn darganfod yn arhosfa chwech nad felly y bu yn y gorffennol.

Trac 6: Dolgefeiliau [105 eiliad]

Rydych yn sefyll mewn man a adwaenir fel Dolgefeiliau, sy'n golygu Cae'r Gefeiliau. Amser maith yn ôl, dyma ble roedd gofaint yn pedoli gwartheg cyn iddynt barhau ar eu teithiau hir o'r arfordir i lefydd mor bell i ffwrdd â Llundain.

Mae'r fainc bren sydd yma, â chyrn arni, yn dangos y math o offer y byddai'r gofaint wedi'i ddefnyddio. Nid gwartheg yn unig a yrrwyd ar hyd yr hen lwybrau porthmyn hyn. Bu'n rhaid i anifeiliaid llai tebygol oddef yr un daith: roedd moch yn gwisgo sanau gwlân, a throchwyd traed gwyddau mewn tar meddal a thywod er mwyn eu caledu!

Am ganrifoedd, bu dynion yn gyrru buchesi a oedd yn cynnwys cannoedd o anifeiliaid ar hyd llwybrau mynyddig anghysbell er mwyn osgoi talu tollau ar eu taith dau gant a hanner milltir i'r farchnad.

Ar ôl gwerthu'r da byw, roedd y jermyn hyn yn darged i ladron pen ffordd wrth iddynt ddychwelyd i Gymru. O ganlyniad, sefydlodd nifer o borthmyn y banciau Cymreig cyntaf fel eu bod yn gallu rhoi arian mewn banc yn Llundain a dychwelyd adref heb y baich o fod â phocedi'n llawn aur.

Trown at fetel gwerthfawr arall nawr. Cofiwch nôl at ddechrau'r llwybr clywedol hwn. Os cofiwch chi, dechreuodd y llwybr beicio mynydd ger pâr o gyrn tarw. Cawsant eu gwneud o gopr oherwydd bu mwyngloddio helaeth am gopr yn yr ardal hon. I ddarganfod ym mhle, ewch i Glasdir a dilyn llwybr clywedol hynod o ddiddorol arall!

Mae'r prif lwybr yn parhau o'ch blaen, i fyny llethr mwy serth, gan ddilyn y nodwyr llwybr melyn, tra bo'r llwybr Pob Gallu'n dychwelyd i'r ganolfan ymwelwyr gan ddilyn y llwybr Glas.

Trac 7: Cyfannu'r cylch [80 eiliad]

A dyma gylch arall. Caiff y dŵr o'r toiledau ei sianelu i'r cynwysyddion plastig hyn ble caiff ei hidlo trwy nifer o welyau mawn er mwyn cael gwared ar unrhyw halogyddion cas a all niweidio bywyd gwyllt. Mae'n rhaid iddo fod yn lân oherwydd caiff y dŵr ei ryddhau'n uniongyrchol i SoDdGA – sef Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig – a ddynodwyd oherwydd ei bwysigrwydd o ran bywyd gwyllt.

Mae cylchoedd wedi dylanwadu ar gynllun y ganolfan ymwelwyr - dewiswyd ffurf cylch i gynrychioli olwyn beic. Daw'r rhan fwyaf o'r pren ar gyfer yr adeilad ecogyfeillgar hwn o ffynonellau lleol, gan gynnwys pren Llarwydd i orchuddio'r waliau allanol, Cedrwydd Coch Gorllewinol a ddefnyddiwyd i adeiladu'r balconi, a phren deri, onn a ffawydd a ddefnyddiwyd ar gyfer y lloriau y tu fewn i'r adeilad. Nawr ein bod wedi cyrraedd diwedd y daith gerdded hon, gallwch eu gweld dros eich hun wrth i chi gael diod a rhywbeth i'w fwyta yn y ganolfan ymwelwyr.

Gallwch glywed mwy am hanes cyfoethog Coed y Brenin ar bedwar llwybr arall yn y Parc Coedwig. Ariannwyd y llwybrau clywedol gan y Rock Trust, sef elusen sydd wedi'i lleoli ym Meirionnydd, ac mae pob un ohonynt ar gael i'w lawrlwytho am ddim o wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru.